Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cymraeg Y Fflint
**Neuadd Maes y Coed,**
**Chester Road,**
**Y Fflint**
**Sir Y Fflint**
**CH6 5DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**


**Wil Williams**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y ysgol a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Cymraeg Y Fflint yn 1977 yng Nghanolfan Chwarae yn y dref cyn iddo yn ddiweddarach symud i gaban symudol ar fuarth Ysgol Gymraeg Croes Atti. Mae'r lleoliad bellach mewn caban newydd ers 2008 wedi i'r adeilad gwreiddiol gael ei ddinistrio gan dân. Mae'r lleoliad yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Y Fflint ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant y dref a'r ardal eang o'i chwmpas. Mae'r plant a gaiff eu derbyn i'r lleoliad yn cynrychioli ystod eang o gefndiroedd economaidd a chymdeithasol, gyda rhai yn byw mewn ardaloedd 'Cymunedau'n Gyntaf.'

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nag o grŵp ethnig wedi'u cofrestru yn y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner am bum prynhawn yr wythnos ar gyfer plant tair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan blant unigol yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Mae'r un deg pedwar o blant tair oed sy'n mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Er mai Saesneg yw prif iaith y cartref i bob plentyn, prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw Cymraeg. Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd y rhan fwyaf o'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd Gymraeg gyfagos.

Cefnogir addysg y plant gan arweinydd a phedair ymarferydd. Mae bron pob aelod staff gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Mae'r adeilad yn cynnwys prif ystafell ddysgu, toiledau, cegin a storfeydd. Mae ardal chwarae bwrpasol y tu allan a gaiff ei defnyddio’n gyson gan y lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2009. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn dda;
- llawer o'r plant yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant;
- profiadau dysgu o ansawdd uchel; a bod
- y lleoliad yn rhoddi gwerth da am arian.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- ansawdd arweinyddiaeth yn dda;
- trefniadau hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda;
- ymarferwyr yn fodlon ymgymryd â mentrau newydd ac i dderbyn cyngor; a bod
- gwelliannau sylweddol eisoes wedi'u gweithredu yn y lleoliad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 ddefnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i gynllunio camau nesaf mewn dysgu;

A2 ddarparu tasgau mwy heriol ar gyfer plant o allu uwch;

A3 sefydlu trefniadau ar gyfer gwerthuso staff; a

A4 chryfhau cysylltiadau gyda'r gymuned leol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyflawni safonau da o ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu ac yn gwneud cynnydd realistig yn yr hyn y maent yn gallu ei wneud ac yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Yn ystod sesiynau, mae llawer ohonynt yn cyflawni'n dda mewn gweithgareddau sy'n cryfhau ac yn datblygu eu dysgu.

Mae safonau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n dda gyda'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Wrth sgwrsio gyda'i gilydd neu gydag oedolyn, mae pob plentyn yn mynegi eu teimladau a'u syniadau yn glir ac yn gwrando'n ofalus ar ymateb y gwrandäwr. Mae llawer yn gofyn cwestiynau ystyrlon, yn dangos diddordeb brwd mewn llyfrau ac yn mwynhau trafod prif ddigwyddiadau'r stori. Mae bron pob plentyn yn mwynhau arbrofi â chreu marciau ac yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o rai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae'r mwyafrif yn defnyddio'r iaith fathemategol briodol yn ystod gweithgareddau ymarferol ac maent yn hyderus iawn wrth gyfrif casgliad o wrthrychau. Mae bron pob plentyn yn cymhwyso'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn bwrpasol wrth ddefnyddio 'llyfrau siarad' a rheoli symudiadau gwahanol deganau.

Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ennill medrau yn yr iaith Gymraeg. Mae llawer yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n hyderus, maent yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ac yn dilyn ac yn ymateb i storïau'n eiddgar iawn. Wrth sgwrsio gydag oedolion, mae'r rhai mwyaf hyderus yn defnyddio geiriau unigol, ymadroddion a brawddegau byrion gyda chywirdeb addas.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dyfalbarhau'n ddygn gyda thasgau yn ystod dewis rhydd ac yn arbrofi ac archwilio'n hyderus. Mae medrau datrys problemau a gwneud penderfyniadau yn datblygu'n briodol.

Mae canlyniadau holiaduron y rhieni yn dangos lefel uchel iawn o foddhad â'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud.

**Lles**: **Da**

Mae llawer o'r plant yn dangos lefelau uchel o ddiddordeb a chymhelliant ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae gan bob plentyn ddealltwriaeth gadarn o sut y gallant ddod yn iach drwy'r hyn maent yn ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol maent yn ymgymryd ag ef. Mae gan bob unigolyn berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Wrth ymwneud â thasgau penodedig neu dasgau o'u dewis hwy eu hunain, mae plant yn cydweithio'n gytûn ac yn dangos graddfa uchel o annibyniaeth. Nodwedd amlwg iawn o'r lleoliad yw'r ymddygiad da a'r gofal a'r consyrn a ddangosir gan blant tuag at ei gilydd.

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol neu eiriol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gynllunio ar y cyd effeithiol, llwydda'r ymarferwyr i drefnu a chyflwyno profiadau dysgu ysgogol a hyblyg sy'n ennyn diddordeb yr holl blant a'u galluogi i wneud cynnydd da ym mhob maes dysgu. Wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol. Mae'r cyfleoedd dysgu a ddarperir yn annog plant i ffurfio perthynas glos a'i gilydd, i fentro ac arbrofi â phrofiadau newydd ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu. Er bod pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r profiadau dysgu, nid yw'r tasgau a ddarperir bob tro yn ddigon heriol ar gyfer plant uwch eu gallu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau ehangach yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau pob un o'r plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do â'r ardal y tu allan, yn ddychmygus iawn i gyfoethogi profiadau dysgu ac i annog plant i gymryd diddordeb yn y byd o'u cwmpas. Fodd bynnag, prin yw'r defnydd a wneir o ymweliadau â lleoedd yn y gymuned a chan ymwelwyr, i ymestyn dysgu plant.

Mae'r cyfleoedd a gaiff plant i gymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu ac arbed ynni'r lleoliad yn cyfrannu'n dda tuag at godi eu hymwybyddiaeth o gynaladwyedd ac o'u rôl fel dinasyddion fyd-eang.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg a thraddodiadau a diwylliant Cymru. Caiff ymwybyddiaeth plant o draddodiadau diwylliannau eraill ei ddatblygu mewn modd ystyrlon.

**Addysgu: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plentyn ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ffocws clir i gymorth oedolion ac maent yn cyfrannu’n sylweddol at ansawdd dysgu’r plant. Er bod disgwyliadau addas ar gyfer plant is a chanolig eu gallu, ar brydiau, nid oes tasgau digon heriol ar gyfer plant o allu uwch. Trwy gynllunio gofalus, llwydda'r ymarferwyr i gadw cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plant a'r rheini sy’n cael eu cyfeirio gan oedolion. Caiff yr ardal y tu allan ei ddefnyddio'n ddychmygus iawn i ddarparu gweithgareddau dysgu diddorol yn chwe maes dysgu. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu er mwyn dennu ymglymiad a diddordeb plant ac maent yn ymyrryd mewn gweithgareddau mewn modd bwriadus a sensitif. Maent yn rheoli ymddygiad plant mewn ffordd dawel a chadarn. Caiff amrywiaeth o adnoddau eu defnyddio'n fedrus i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu.

Gydag arweiniad athrawes gefnogol yr awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn y broses o ddiweddaru ei dulliau ar gyfer asesu dysgu plant. Caiff cynnydd a lles plant eu cofnodi'n fanwl ar draws pob maes dysgu ond ychydig o ddefnydd a wneir o'r wybodaeth i gynllunio camau nesaf mewn dysgu plant unigol. Mae trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu gyda'r ysgolion y trosglwyddir plant iddynt ac o hysbysu rhieni am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae pob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn hyderus wrth ofyn i oedolyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ceisio gofalu bod anghenion pob unigolyn yn cael eu bodloni.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus. Mae ethos cynhaliol y lleoliad yn meithrin gwerthoedd megis gonestrwydd, tegwch a chyfeillgarwch yn effeithiol iawn ac yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn.

Mae gan y lleoliad bolisïau a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Mae'n llwyddo'n dda i helpu pob plentyn i gyflawni iechyd a lles emosiynol a chorfforol ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir iddynt. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol os bydd heriau'n codi mewn perthynas â bwlio, ymddygiad annerbyniol a diogelu. Pan fo achosion penodol yn codi, mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i wneud defnydd effeithiol o asiantaethau allweddol.

Roedd adroddiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn gadarnhaol iawn ac ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer gwella.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar y cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant a staff yn rhydd oddi wrth aflonyddwch. Mae gan y lleoliad nifer dda o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r ymarferwyr i greu amgylchedd ysgogol lle y gall pob plentyn fanteisio'n llawn o'u profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau ym mhob maes dysgu. Maent o ansawdd da ac yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Caiff yr adnoddau yn yr ardal y tu allan eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi dysgu ond ychydig o ddefnydd a wneir o adnoddau'r gymuned. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd o ansawdd da iawn ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn gan roi synnwyr o ddiben ac o welliant parhaus i waith y lleoliad. Maent yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol eraill, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda ac mae trefniadau clir ar

gyfer rhoi polisïau'r lleoliad ar waith.  Mae pob aelod staff gyda dealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac maent yn rheoli eu hamser yn ofalus yn ystod sesiynau. Mae'r arweinydd yn agored iawn i dderbyn cyngor ac yn adlewyrchu'n feirniadol ar ei gwaith.

Mae'r berthynas glos gyda phlant, rheini a'r pwyllgor rheoli yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned.  Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth dda i staff ac maent yn hynod o weithgar yn trefnu gweithgareddau codi arian er mwyn gwella'r ddarpariaeth adnoddau ar gyfer dysgu ac addysgu.  Er hynny, nid oes gan y pwyllgor drefniadau addas ar gyfer gwerthuso staff.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth briodol o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant.  Maent yn ddiweddar wedi cynnal arfarniad manwl o waith y lleoliad ac wedi defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol mewn cynllun gweithredu i flaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno gwella.  Mae'r holl staff yn agored iawn i syniadau newydd ac i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.  Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth a dulliau gweithio yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.  Trwy holiaduron, caiff rhieni gyfleoedd rheolaidd i leisio barn am waith y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus gynhwysfawr a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Caiff hyn ei ategu gan ymweliadau rheolaidd yr athrawes gynhaliol sydd wedi bod o gymorth mawr i'r arweinydd a'r ymarferwyr i fynd i'r afael â mentrau newydd.   Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau fod pob ymarferydd yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol iawn o ddatblygiadau diweddaraf yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r ymarferwyr yn rhannu arfer dda o fewn y lleoliad yn gyson ac yn myfyrio ar eu harfer eu hunain.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang iawn o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n arwyddocaol at gyflawniadau a lles plant.  Mae cydweithio cynhyrchiol iawn gyda gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol a chyda llawer o fudiadau ac asiantaethau eraill.  Ceir cysylltiadau agos iawn gyda'r ysgol gynradd Gymraeg sy'n rhannu'r un campws. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn manteisio ar bob cyfle i'w cynnwys yn nysgu eu plant.   Mae'r ymarferwyr yn cydweithio gyda'i gilydd yn dda iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n dda i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Caiff staff eu defnyddio'n effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad.  Mae'r holl adnoddau'n cael eu rheoli'n ofalus a'u hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth drylwyr o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Caiff

penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith cadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Derbyniwyd saith o holiaduron rhieni. Roedd pob rhiant yn dweud bod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad a'u bod yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae pob rhiant yn creu fod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol a bod y lleoliad yn cael eu rhedeg yn dda.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)